Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

**Adroddiad Blynyddol**

Hydref 2020

**Trosolwg**

Nod y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod yw hyrwyddo camau trawsbleidiol i sicrhau cydraddoldeb i fenywod yng Nghymru. Suzy Davies AS a Siân Gwenllian AS yw cyd-gadeiryddion y grŵp. Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn rhoi cymorth ysgrifenyddol. Ers yr adroddiad blynyddol blaenorol ym mis Gorffennaf 2019, mae'r grŵp wedi ymgynnull bedair gwaith: 17 Hydref 2019; 3 Rhagfyr 2019; 18 Mehefin 2020 a 15 Hydref 2020. Roedd pob cyfarfod, gan gynnwys y cyfarfodydd cynllunio, wedi'u cynnal ar-lein ar Zoom o fis Mawrth 2020 ymlaen oherwydd Covid-19.

Mae'r grŵp wedi defnyddio'r cyfarfodydd hyn i ganolbwyntio ar nifer o faterion, gan gynnwys: cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant ynghylch cam-drin ar-lein; Cam 2 yr Adolygiad Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, y Bil Llywodraeth Leol a lansiad adroddiad terfynol y Grŵp Cyllideb Menywod ar economi cyfartal o ran rhywedd.

Hefyd, gweithiodd y grŵp yn agos gyda'r rhwydwaith Menywod yn Ewrop (Cymru), a ddaeth yn rhan o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod ym mis Gorffennaf 2019.

Ymhlith y bobl sydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd dros y flwyddyn mae cynrychiolwyr gwleidyddol, sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio i roi terfyn ar wahaniaethu yn erbyn menywod, unigolion sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb rhwng y rhywiau a staff cymorth Aelodau o'r Senedd.

**1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi**

**Swyddogion:**

- Suzy Davies AC (cyd-gadeirydd)
- Siân Gwenllian AC (cyd-gadeirydd)
- Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (ysgrifennydd)

**Aelodau ychwanegol:**

- Angela Burns AC (Aelod)
- Lynne Neagle AC (Aelod)
- Jayne Bryant AC (Aelod)

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

### Cyfarfod 1

**Pwnc:** 'Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau, Cam 2'

**Dyddiad:** 17 Hydref 2019

**Yn bresennol:**

*Suzy Davies AC (cyd-gadeirydd), Siân Gwenllian AC (cyd-gadeirydd, trwy gyswllt fideo), Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (ysgrifennydd), Natasha Davies, Chwarae Teg (siaradwr), Eleri Cubbage, Menywod yn Ewrop (Cymru) (siaradwr), Claire Cunliffe, Oxfam Cymru, Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru, Catherine Iannucci, staff cymorth Jane Hutt AC, Lydia Godden, intern/myfyriwr Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Polly Winn, Chwarae Teg, Mat Mathias, ERS Cymru, Sarah Rees, y Blaid Cydraddoldeb i Fenywod, Heddwen Daniel, Cymorth i Ferched Cymru, Sioned James, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad Plaid Cymru.*

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**:

Rhoddodd Eleri Cubbage, cyd-gydlynydd Menywod yn Ewrop (Cymru), drosolwg o'r rhwydwaith a chododd bryderon ynghylch hawliau menywod sydd dan fygythiad yn sgil ymadael â'r UE. Trafododd yn fyr bensaernïaeth yr UE ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau sydd wedi'i ddatblygu dros ddegawdau o ymgyrchu ffeministaidd yn Ewrop. Rhoddodd Tash Davies drosolwg o Gam 2 yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau, sydd ar hyn o bryd yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Cyfarfod 2

### Cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

**Pwnc:** 'Cam-drin ar-lein'

**Dyddiad:** 3 Rhagfyr 2019;

**Yn bresennol:** *Bethan Sayed AC (cyd-gadeirydd); Delyth Jewell AC (siaradwr); Suzy Davies AC; Mark Isherwood AC; Siân Gwenllian AC; Helen Mary Jones AC; Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru, siaradwr); Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb i Fenywod Cymru; Amy Jones, Llywodraeth Cymru, (siaradwr); Lesley Curtis, Hafan Cymru; Jordan Watkins, PPC Gwent; Charlotte Archibald, annibynnol; Korina Tsioni, WCVA; Gemma Price, Annibynnol; Ele Hicks, Diverse Cymru; Sarah Thomas, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched; Nancy Cavill, staff cymorth ar gyfer Julie Morgan AC; Lynne Tedik, Soroptimist International, Cynrychiolydd Rhanbarth De Cymru; yr Esgob June Osborne; Julie Richards, SEEdS.*

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:** Trafododd y grŵp gam-drin ar-lein yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dan arweiniad Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru; Cam-drin menywod ar-lein mewn swydd gyhoeddus, dan arweiniad Delyth Jewell AC; ac ymgyrch Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc a defnyddio technoleg, dan arweiniad Amy Jones, Llywodraeth Cymru.

**Cyfarfod 3, ar-lein**

**Pwnc:** Menywod, Amrywiaeth a'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, Gwelliannau

**Dyddiad:** 18 Mehefin 2020

**Yn bresennol:** *Siân Gwenllian AS; Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru) (siaradwr); y Cynghorydd Mary Sherwood (siaradwr); Leena Farhat (siaradwr); yr Athro Sarah Childs (siaradwr); Mia Rees, swyddfa Suzy Davies AS; Ele Hicks, Diverse Cymru; Leigh Ingham, Plan International UK; Katerina Stivasari-Jones, ymgynghorydd/mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Lori Frat, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Rhian A Davies, Theatr Genedlaethol Cymru; Liz Hill O'Shea, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Patience Bentu, Cyngor Hil Cymru; Sioned Jones, swyddfa Siân Gwenllian AS; Katie Cooke, annibynnol; Emma Wilde, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Toni Beardmore, annibynnol; Sara Kirkpatrick, Cymorth i Ferched Cymru; Beth Thomas, The Big Issue; Helen Parfitt, swyddfa Helen Mary Jones AS; Diana Stirbu, Prifysgol Fetropolitan Llundain; Deborah Shaffer, FTWW; Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru; Sarah Rees, swyddfa Bethan Sayed AS; Sophie Weeks, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Abbie Winsor, Prifysgol Aberystwyth; Polly Winn, Chwarae Teg*

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**: Trafodwyd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau a gwelliannau posibl i gryfhau potensial y Bil mewn perthynas ag amrywiaeth. Trafododd y siaradwyr y broses o rannu swyddi fel cynghorwyr, y diwylliant gwaith yn ymwneud â rolau gwleidyddol, cwotâu rhywedd a gweithredu cadarnhaol ar gyfer mwy o amrywiaeth mewn sefydliadau gwleidyddol, absenoldeb rhieni (sy'n absennol o'r Bil), a natur wledig, a sut y gallai addasu'r system etholiadol effeithio ar y gwaith ar amrywiaeth a wnawn yng Nghymru ar gyfer menywod a gwahanol fathau o amrywiaeth.

**Cyfarfod 4, ar-lein**

**Pwnc:** Creu Economi Gofalu yng Nghymru a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol

**Dyddiad:** 15 Hydref 2020

**Yn bresennol: i'w gadarnhau**

*Siân Gwenllian AS (Cadeirydd); Suzy Davies AS (Cadeirydd); Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (cofnodion); Tash Davies, Grŵp Cyllideb Menywod (siaradwr); Patience Bentu, Grŵp Cynghorol BAME COVID-19 y Prif Weinidog (siaradwr); Duncan Fisher, Grŵp Cyllideb Menywod (siaradwr); Jackie Jones, Merched yn Ewrop (Cymru) (siaradwr); Rachel Minto, Menywod yn Ewrop (Cymru); Jenna Norman, Grŵp Cyllideb Menywod; Alison Parken, Ysgol Busnes Caerdydd; Ruth McKie, Soroptimists Int. De Cymru; Jessica Williams, WCVA; Lynne Tedik, Soroptimists Int. De Cymru; Debbie Shaffer, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru; Rachel Cable, Oxfam Cymru; Ele Hicks, Diverse Cymru; Sarah Thomas, NFWI; Jenny Ramsay, swyddfa Paul Davies AS; Abi Thomas, Swyddog Menywod Plaid Cymru ar gyfer etholaeth Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro; Julie Richards; Claire Thomas, Sefydliad Bevan.*

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**: Ar ôl ailethol y cadeiryddion a'r ysgrifenyddiaeth, clywodd y grŵp gan y grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru), a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am ymadawiad y

DU â'r Undeb Ewropeaidd a gweithgareddau Ewropeaidd a rhyngwladol sy’n berthnasol i waith y grŵp. Trafododd ein siaradwr o *Grŵp Cynghorol BAME Covid-19 y Prif Weinidog waith y grŵp a rhoddodd drosolwg o effaith economaidd-gymdeithasol Covid-19 ar bobl a chymunedau BAME yng Nghymru. Trafododd siaradwyr o'r Grŵp Cyllideb Menywod sut y byddai economi sy'n ystyried gofal â thâl a gofal di-dâl yn ddigonol yn cryfhau hawliau menywod ac o fudd i fenywod a dynion.*

**3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae’r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol**

*Fel uchod.*

**4. Datganiad Ariannol Blynyddol**

**Dyddiad:** 29-10-20

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

**Cyd-gadeiryddion:** Siân Gwenllian AS a Suzy Davies AS

**Ysgrifennydd**: Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau’r Grŵp | Dim | £0.00 |
| Cost yr holl nwyddau | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall | Ni chafwyd cymorth ariannol | £0.00 |
| | **Cyfanswm y gost** | £0.00 |